

## Doniau

**Darlleniad 1: Exodus 31: 1-6**  
**Darlleniad 2: Mathew 25: 14-30**

---

---

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, deunw ger dy fron o'r newydd i'th addoli. Deunw i ofyn am dy arweiniad - hebot ti ni fedrwn ni wneud dim. Diolchwn dy fod yn derbyn rhai fel ni, a gad inni gofio'n barhaus mai ti yw ein gwneuthurwr ni, mai ynot ti yr ydym yn byw, yn symud ac yn bod.

Bendigwn dy enw mawr am y cyfoeth doniau sy'n perthyn i ni. Rydym i gyd yn wahanol, ond mae gan bob un ohonom ei gyfraniad er lles dynoliaeth. Maddau mor hunanol yw ein hoes - llafuriwn er ein lles ein hunain, gan anghofio eraill.

Diolchwn am bobl sydd wedi medru newid cyfeiriad hanes, y rhai hynny sydd wedi cysegru eu doniau i geisio gwneud ein byd yn lle gwell i fyw.

Diolch am y gwyddonydd a'i ddarganfyddiadau; am y ddawn i ddarganfod sut i wella a lleddfu poen; am y ddawn i drin y ddaear; y ddawn i ddod â thechnoleg fodern i afael gwareiddiad. Ond erys y tristwch, Arglwydd, fod camddefnyddio ar ddoniau fel hyn. Gwnawn fwy a mwy o arfau dinistriol; camddefnyddiwn ddefnyddiau crai ein byd; mae ein dyfeisgarwch yn dod â dinistr. Newidiwn ffordd o fyw'r canrifoedd yn y fforestydd, gan wneud y tlawd yn dlotach a'r cyfoethog yn gyfoethocach.

Diolch am feddygon a nyrsys. Bendigwn dy enw am y doniau a gawsant i wella clwyf ac esmwytháu cur. Ond, ein Tad, mae arnom angen dy arweiniad di yn yr oes newydd, pan yw person yn chwarae duw â bywydau. Arbrofi ar groth a defnyddio rhannau o gorff fel darnau o beiriant. Rho d'arweiniad yn ein dyddiau.

Diolch, Arglwydd, am yr athrawon sydd â'r cyfrifoldeb aruthrol o

gychwyn plant ar daith bywyd. Athrawon ysgol a darlithwyr coleg sy'n rhoi cyfeiriad i'n hieuenctid. Dyro drefn yn ein dyddiau, dyddiau â chymaint o gwyno am brinder adnoddau.

Diolch am y bardd a'r llenor a'r cerddor. Am y cyfansoddiadau sy'n cyfoethogi ein meddyliau ac yn rhoi blas i oriau hamdden. Diolch am y gerdd a'r gân a'r gynghanedd.

Diolch i ti am arweinwyr gwlad ac ardal. Gad iddynt sylweddoli'r cyfrifoldeb sydd ar eu hysgwyddau. Maddau i arweinwyr y gwledydd gymaint yr anhrefn a'r dioddef y medrant eu hachosi. Sobra hwy i feddwl am eraill, yn hytrach nag am eu buddiannau eu hunain.

Diolchwn am bawb sy'n gweithio â'u dwylo ymhob dull a modd er ein cysuro ni.

Diolch am bregethwyr y Gair, am weinidogion a chenhadon. Diolchwn am y rhai sy'n ymdrechu i daenu'r efengyl yn ein gwlad ac ymhob cwr o'r byd. Diolchwn am ddoniau'r bobl hyn.

Bendigwn dy enw am y llu aneirif sy'n gweithio heb feddwl am dâl na chlod. Y fam yn ei chartref, yr aelod yn yr eglwys, y rhai sy'n casglu at achosion da, a'r rhai sy'n gofalu am yr unig a'r diymgeledd.

Diolch am dy Fab, Iesu Grist - er iddo ef fod yn gyfoethog, daeth yn dlawd er ein mwyn ni. Gadael y nef o'i fodd a dod fel gwas. Dod i wasanaethu, nid i'w wasanaethu.

Atgoffa ni, beth bynnag yw ein doniau, mai oddi wrthyt ti mae'r cyfan wedi dod. Beth sydd gennym nad ydym wedi ei dderbyn?

Derbyn ni yn enw Iesu Grist, dy Fab, wedi maddau ein beiau yn ei enw. Amen.

Gareth Alban Davies